**Gweithdy Mametz Arholiad UG/U CBAC**
**Gweithdy'r Cyfarwyddwr**
**Catherine Paskell**

| Amser | Gweithgaredd | Adnodd | Deilliant Dysgu |
|---|---|---|---|
| (15 munud) | Ensemble, archwilio rhyfel yn gorfforol trwy ddelwedd llonydd / tableau. Mewn grŵp, rhaid i'r myfyrwyr archwilio teimlad y darlun. Sut mae hyn yn dangos sut beth oedd y profiad o bosibl a sut allwn ni ddefnyddio hynny mewn perfformiad? Sut ydym yn dod o hyd i ystyr?<br><br>A fyddai'r ddelwedd hon yn wahanol pe baem yn meddwl am ryfel heddiw – gwnewch y ddelwedd honno. | The Welsh at Mametz Wood (1916) llun (jpeg)<br><br>Cyfeiriwch at:<br><br>In Parenthesis gan David Jones (cerdd gan gymeriad yn y ddrama)<br><br>Mametz Wood gan Owen Sheers (cerdd 2005) | Dehongliad ac arddull (byddwn yn archwilio dehongliad symbolaidd. Gan fod rhyfel mor erchyll dyna pam mai darluniau a beirdd yw'n hartistiaid rhyfel mwyaf adnabyddus, gallant archwilio realiti rhyfel mewn ffordd sy'n ein galluogi i ddychmygu oherwydd mae'r realiti yn rhy ofnadwy)<br><br>Dehongliad / Gweledigaeth – bod rhyfel yn ein dilyn drwy hanes, a materion o genedlaetholdeb mewn rhyfel a sut rydym yn teimlo hynny heddiw.<br><br>Cyd-destun cefndir hanesyddol y ddrama a dehongliad cyfoes (e.e. y cylchgrawn Zoo a ddarllenwyd gan filwyr) |
| (1 awr)<br><br>Yn cynnwys egwyl fer o 15 munud | Archwilio rhyngweithio corfforol a gofodol y cymeriadau i ddod o hyd i ystyr a naratif.<br><br>Rhannwch y myfyrwyr yn 5 grŵp os oes modd, gyda phob grŵp yn edrych ar elfen wahanol o berfformio. Os oes | Tudalennau 9 – 19 y testun | Confensiynau perfformio. Meddyliwch yma hefyd am sut rydym yn defnyddio'r technegau hyn i wneud y ddrama yn gyfredol ar gyfer cynulleidfa fodern. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | llai o fyfyrwyr, gallant weithio mewn grwpiau o 3-4 a chymryd 2 elfen yr un.<br><br>Sut beth yw'r byd ffisegol yn y ffosydd ac ar gyfer y menywod gartref? Sut ydym yn llwyfannu perygl pan fydd uwch ein pennau, oddi tanom ac o'n cwmpas? Sut allwn ysgogi arogl a hanfod rhyfel mewn ffordd symbolaidd? Sut ydym yn dangos statws mewn rhyfel?<br><br>GOFOD: - beth yw'r gofod rhwng pobl a gwrthrychau a phensaernïaeth, sut mae hyn yn dynodi statws?<br><br>SIÂP – cyrff mewn gofod, beth mae hyn yn dweud wrthym am y stori a'r emosiynau?<br><br>YSTUM - realistig v mynegiadol (Stanislavski v Brecht)<br><br>TOPOGRAFFEG – sut beth yw'r dirwedd yn ddaearyddol, a allai hefyd fod yn berthnasol i ddyluniad y set<br><br>TEMPO, HYD ac YMATEB CINESTHETIG i'r hyn sy'n digwydd, gosod yr olygfa<br><br>SYMUD ac EMOSIWN – gwneud y cyrff yn theatrig a sut mae symud yn cario emosiwn, stori ac ystyr | | Perthnasoedd gofodol ar lwyfan<br><br>Perthynas rhwng perfformiwr a chynulleidfa (araith cyfeiriad uniongyrchol ar dudalennau 15 – 19) |
| (30 mun) | Act 3 – yr Act olaf – angen iddo fod yn wahanol i'r Act Gyntaf (yr edrychon ni arno yn yr enghraifft o destun blaenorol). | Tudalennau 56-58 | Perthynas rhwng perfformiwr a chynulleidfa |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Sut allwn wneud i'r gynulleidfa deimlo aberth rhyfel pan fydd Wyn Griffiths yn fwriadol (neu beidio) yn anfon ei frawd ifanc i farw i achub bywydau pobl eraill<br><br>+ SYLWER os bydd y gweithgaredd blaenorol yn rhedeg yn hwyr, gallwn ddewis peidio â gwneud yr adran hon. Yn hytrach, gallaf sôn am y berthynas rhwng perfformiwr a chynulleidfa yn y cyfweliad. | | |